**Atodiad B**

# Iddyn nhw - Yn newid y drefn torri glaswellt er lles natur

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Rydym mewn argyfwng natur. Mae 1 o bob 6 rhywogaeth sydd wedi'u hasesu yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Mae angen i ni weithredu nawr i'w hachub.

Gallwn wneud ymylon ffyrdd, parciau a mannau gwyrdd eraill yn fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt. Efallai y bydd glaswellt wedi'i dorri'n ofalus yn edrych yn daclus ond nid oes fawr o fudd i fywyd gwyllt. Mae gadael i laswellt dyfu a chael mwy o ardaloedd tebyg i ddolydd gyda blodau gwyllt yn helpu bywyd gwyllt.

### Planhigion

Mae blodau gwyllt, gan gynnwys blodau gwyllt prin, yn tyfu ac yn cynhyrchu hadau, gan ganiatáu iddynt gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

### Infertebratau

Mae blodau gwyllt a glaswellt yn darparu bwyd i bryfed, gan gynnwys cacwn, pryfed hofran, chwilod, glöynnod byw, gwyfynod, sioncynod y gwair.

Mae glaswellt hir yn rhoi cysgod iddynt ddodwy eu hwyau a chwblhau eu cylchoedd bywyd. Gall dolydd naturiol nodweddiadol gefnogi mwy na **1,400 o rywogaethau** o infertebratau.



### Mamaliaid

Mae ystlumod, llygod maes, llygod y gwair, llygon a draenogod yn bwyta'r planhigion a'r infertebratau a geir mewn dolydd.

### Amffibiaid

Mae brogaod a llyffantod yn bwydo ar infertebratau.

### Ymlusgiaid

Hefyd, mae nadroedd defaid a madfallod yn bwyta infertebratau, ac mae nadroedd y gwair yn bwyta llyffantod.

### Adar

Mae adar bach fel llinosiaid yn bwyta hadau o flodau gwyllt. Mae adar eraill fel gwenoliaid yn bwyta pryfed. Mae cudyll coch, bwncath a thylluanod gwynion yn bwydo ar famaliaid bach.

**Mae newid y ffordd rydym yn torri glaswellt yn ymwneud ag arbed bywyd gwyllt, nid lleihau costau.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44340